# Canllawiau'r rhaglen ar gyfer elusennau arbenigol ar Droseddu 2023/2024

## Diolch i chi am roi o'ch amser i ddeall ai ni yw'r cyllidwr cywir ar gyfer eich elusen.

Darllenwch y ddogfen hon cyn i chi ddechrau ar eich cais, gan ei bod yn esbonio pwy a beth rydym yn ei gyllido, yn ogystal â sut rydym yn gwneud penderfyniadau. Mae gan y canllaw hwn 7 adran:

1. Cefndir
2. Nifer y grantiau i'w dyfarnu
3. Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am gyllid
4. Meini prawf cymhwysedd cychwynnol
5. Meini prawf y rhaglen
6. Llunio rhestr fer, a meini prawf blaenoriaethu4
7. Yr hyn nad ydym yn ei gyllido o dan y Rhaglen hon

Cwestiynau Cyffredin

Gobeithio bod hyn yn dweud y cyfan wrthych o ran beth mae angen i chi ei wybod amdanom ni, ond os oes gennych chi gwestiynau o hyd, anfonwch e-bost atom enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk neu ffoniwch ni ar 0370 411 1223 cyn dechrau gwneud eich cais.

Gan ddymuno bob llwyddiant i chi gyda'ch gwaith,

Sefydliad Lloyds Bank yng Nghymru a Lloegr

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

## 1. Cefndir

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi elusennau sy'n helpu pobl sy'n profi problemau cymhleth nad oes atebion syml ar eu cyfer, fel digartrefedd, cam-drin domestig a dibyniaeth. Mae'r materion cymhleth hyn yn gwneud bywyd yn llawer anoddach i bobl; yn dwysáu trawma, yn effeithio ar eu hiechyd, yn arwain at dlodi ac amddifadedd, ac yn atal pobl rhag gallu cyflawni eu potensial.

Rydym o'r farn bod elusennau bach, lleol ac arbenigol yn chwarae rhan unigryw yn y gwaith o helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau. Mae eu maint a'u dealltwriaeth ddofn o'r materion cymhleth mae pobl yn eu hwynebu yn eu rhoi nhw yn y sefyllfa orau i gyrraedd, ymgysylltu a chefnogi pobl a chael effaith.

Rydym eisiau sicrhau bod yr elusennau bach a lleol rydym yn eu cefnogi yn gallu ffynnu y tu hwnt i gyfnod ein cyllid. Mae ein rhaglenni'n cyfuno cyllid anghyfyngedig gydag amrywiaeth o gymorth wedi ei deilwra gyda'r nod o helpu i gryfhau elusennau a meithrin gwybodaeth, sgiliau a galluoedd staff ac ymddiriedolwyr. Gan hynny, mae'r rhaglen hon wedi ei hanelu at elusennau sy'n rhoi blaenoriaeth i'w datblygiad.

Gwyddom fod llawer o elusennau sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o faterion cymhleth mewn cymuned leol. Fodd bynnag, o dan y rhaglen hon, rydym eisiau cefnogi elusennau lle mae'r ffocws a'r rhan fwyaf o'u gwaith yn mynd i'r afael ag un o'r wyth mater (thema).

## 2. Nifer y grantiau y byddwn yn eu dyfarnu

Rydym yn derbyn mwy o geisiadau nag y gallwn eu cyllido mewn unrhyw flwyddyn.

O dan y rhaglen gyllido hon yn 2022/2023, fe wnaethom ddyfarnu 82 o grantiau gyda gwerth cyfanswm o £6.15 miliwn ar draws yr wyth thema.

Cawsom 280 o geisiadau ar draws yr wyth thema, ac roedd 171 (61%) ohonynt yn bodloni ein meini prawf cymhwysedd cychwynnol. O'r 171 o elusennau hynny, fe wnaethom gyllido 82 o grantiau (48% o'r ceisiadau cymwys).

Roedd y gyfradd llwyddiant yn amrywio'n sylweddol ar draws pob un o'r themâu. O dan y thema Troseddu, cawsom 26 o geisiadau cymwys a chafodd 12 ohonynt eu cyllido (cyfradd llwyddiant o 46%).

**Ar gyfer y rhaglen 2023/24 hon, byddwn yn dyfarnu cyfanswm o 84 grant. Rydym yn disgwyl y bydd oddeutu 13 o'r rhain yn cael eu dyfarnu i elusennau arbenigol ar Droseddu.**

## 3. Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am gyllid

Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau yw **dydd Iau, 25 Ionawr 2024** am 5pm.

Rhoddir gwybod i chi am ganlyniad eich cais erbyn **dydd Gwener 24 Mai 2024.**

## 4. Meini prawf cymhwysedd cychwynnol

Er mwyn bod yn gymwys i gael grant gennym, bydd angen i'ch elusen fodloni'r meini prawf canlynol:

- **Cofrestru fel elusen neu fel sefydliad corfforedig elusennol (CIO)** gyda'r Comisiwn Elusennau. Byddwn yn gofyn am rif cofrestru eich elusen ar ddechrau eich cais.
- Cael o leiaf un gyfres o gyfrifon blynyddol yn dangos eu bod wedi'u 'derbyn' ar wefan y Comisiwn Elusennau, ar gyfer cyfnod gweithredu o ddeuddeg mis.
- **Gydag incwm blynyddol o rhwng £25,000 a £500,000** yn eich cyfrifon diwethaf a gyhoeddwyd ar wefan y Comisiwn Elusennau. Mae hyn yn golygu eich holl incwm ac, yng nghyswllt cyfrifon cyfunol, dylai gwmpasu pob endid o fewn y cyfrifon hynny.
- **Bod â chyfrif banc yn enw'r elusen** sydd â llofnodwyr nad ydynt yn perthyn. Os bydd y cais yn llwyddiannus, rhaid talu'r grant i'r cyfrif hwn.
- Bod â **Bwrdd o dri ymddiriedolwr o leiaf** ar waith **nad ydynt yn perthyn i aelodau eraill y Bwrdd** a bod eu henwau'n ymddangos ar eich cofnodion Comisiwn Elusennau.
- **Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl mewn swyddi o rym (gan gynnwys ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr) beidio â bod yn perthyn nac yn byw yn yr un cyfeiriad.** Os oes partïon cysylltiedig, byddwn yn ystyried y berthynas, gwrthdaro rhwng buddiannau a

theyrngarwch, cydbwysedd grym yr ymddiriedolwyr sy'n perthyn, a sut y caiff hyn ei reoli.

- **Peidio â gwneud unrhyw daliad i ymddiriedolwyr**, ac eithrio mân dreuliau.
- **Bod â hanes o ddarparu gwasanaethau, am o leiaf blwyddyn, i bobl 18 oed a hŷn.** Rhaid i chi hefyd fod yn darparu'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd. Os yw eich elusen wedi uno'n ddiweddar, rhaid i hyn fod yn berthnasol i o leiaf un elusen cyn yr uno.
- **Gyda pholisi diogelu ar waith.** Byddwn yn archwilio beth mae diogelu yn ei olygu i'ch sefydliad, sut mae'n cyd-fynd â'ch cenhadaeth a'ch gwerthoedd a'ch dull o ddiogelu ar draws eich sefydliad.
- **Gydag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.**
- **Bod yn sefydliad annibynnol.** Byddwn yn edrych ar unrhyw gysylltiad ffurfiol sydd gennych â sefydliadau eraill, rhiant-gwmnïau, neu strwythurau grŵp. Byddwn yn sicrhau bod gan fwrdd yr elusen sy'n ymgeisio reolaeth lawn dros ei waith ac unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau.
- Os oes gennych **grant byw** gyda Sefydliad Lloyds Bank, rhaid iddo ddod i ben cyn **25 Ionawr 2025**.
- **Gweithredu'n bennaf yng Nghymru a/neu Loegr**. Mae'r rhan fwyaf o amser ac arian eich elusen yn cael ei wario ar weithgareddau yng Nghymru a/neu Loegr ac yn helpu pobl sy'n byw yng Nghymru a/neu Loegr.
- **Nid yn cynnwys gweithgarwch crefyddol** fel rhan o'r gwasanaethau a ddarperir oni bai fod yr elusen wedi'i sefydlu i gefnogi pobl o'r ffydd honno'n benodol.
- **Bodloni meini prawf y rhaglen a amlinellir isod:**

## 5. Meini prawf y rhaglen ar gyfer elusennau troseddu arbenigol

**Rhaid i chi fodloni meini prawf y rhaglen hon er mwyn cael eich ystyried ar gyfer cyllid.**

Prif bwrpas eich elusen yw cefnogi pobl sydd â hanes o droseddu sy'n effeithio'n sylweddol ar fywyd bob dydd, adsefydlu ac atal aildroseddu ar gyfer pobl sydd â dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol.

Byddwch yn darparu amrywiaeth o ymyriadau, cysylltiadau a llwybrau i gael gafael ar gymorth arbenigol mewn ymateb i faterion cymhleth eraill sy'n eu

hwynebu. Wrth hwyluso eu proses o adsefydlu ac ailsefydlu i fywyd sefydlog yn eu cymuned.

Rhaid adlewyrchu hyn yn yr amcanion a nodir yn eich dogfen lywodraethu ar wefan y Comisiwn Elusennau, eich adroddiad blynyddol, eich gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol. Dyma beth fyddwn ni'n ei adolygu i ddeall eich pwrpas.

Fel elusen arbenigol, bydd angen i chi ddangos y canlynol:

- **Gwasanaethau cynhwysfawr.** Byddwn yn ystyried ceisiadau lle mae cymorth yn arwain at ymgysylltiad sy'n parhau. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch chi'n darparu llety dros dro a hyfforddiant galwedigaethol i feithrin sgiliau cyflogadwyedd; neu hyfforddiant mewn sgiliau cyllidebu, hyfforddiant rheoli ymddygiad neu fynediad at gymorth iechyd meddwl, gan gynnwys therapi sy'n gysylltiedig â cham-drin hanesyddol. Bydd y cymorth hwn yn ymwneud â chynllun sy'n helpu pobl i symud ymlaen o droseddu, neu eu hatal rhag mynd yn ôl i'r carchar neu wneud gwasanaeth cymunedol.

  **Nid ydym** yn cyllido cymorth un-tro lle nad oes perthynas hirdymor, er enghraifft, gwiriad budd-daliadau lles yn unig, canllawiau cofrestru gyda landlord cymdeithasol yn unig neu gyfeirio at wasanaethau eraill.
- **Perthnasoedd neu bartneriaethau** dibynadwy. Rydyn ni'n gwybod, fel un elusen neu wasanaeth, na fydd disgwyl i chi ddiwallu holl anghenion y bobl rydych chi'n eu cefnogi'n uniongyrchol. Fodd bynnag, dylech fod â pherthynas ddibynadwy â darparwyr neu asiantaethau sy'n gallu helpu pobl i oresgyn yr heriau maent yn eu hwynebu a diwallu eu hanghenion sylfaenol (fel budd-daliadau, gofal iechyd, neu wasanaethau cam-drin domestig).

  Pan fyddwch chi'n cyfeirio rhywun at gymorth, rydych chi'n cynnal eich perthynas â nhw ac yn olrhain eu cynnydd i sicrhau bod eu hanghenion yn cael sylw a'u bod nhw'n symud ymlaen ar eu llwybr at adferiad ac adsefydlu.
- **Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau personol.** Byddwn yn cefnogi elusennau sy'n strwythuro eu cymorth o gwmpas pob unigolyn gan ganolbwyntio ar eu cryfderau ar yr un pryd â diwallu eu hanghenion a'u helpu i oresgyn y rhwystrau maent yn eu hwynebu.

  Byddwch yn gweithio gyda'r bobl rydych chi'n eu cefnogi i ddeall yr heriau y gallant fod yn eu hwynebu ac i gytuno ar sut byddwch yn eu helpu i ddod o hyd i ffordd o oresgyn yr heriau hynny. Byddwch yn cadw cofnodion ysgrifenedig neu electronig neu ffeiliau achos ar gyfer pob un

rydych chi'n ei gefnogi, gan nodi cynnydd yn erbyn gweithgareddau. Rydym yn disgwyl y byddai'r cynllun personol yn mynd i'r afael ag un neu ragor o'r saith llwybr ar gyfer lleihau aildroseddu. Gallwch ddefnyddio offer, fel y Seren Canlyniadau Adfer, i gofnodi a mesur cynnydd ar un neu ragor o'r llwybrau hyn. Dylai eich elusen allu dangos y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud drwy'r cofnodion hyn.

## 6. Llunio rhestr fer a meini prawf blaenoriaethu

Yn ogystal â'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol a meini prawf y rhaglen a amlinellwyd yn barod, wrth lunio rhestr fer o sefydliadau byddwn yn ystyried pa mor dda maent yn bodloni'r meini prawf blaenoriaethu a ganlyn:

### Eich ymagwedd at degwch, amrywiaeth a chynhwysiant

Gwyddom fod rhai pobl yn wynebu gwahaniaethu oherwydd pwy ydynt. Gallai hyn fod oherwydd eu hoed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, tlodi, dosbarth cymdeithasol neu fod yn ynysig yng nghefn gwlad.

Rydyn ni'n gwybod nad yw pob un ohonom yn cael yr un cyfleoedd ac felly mae angen i elusennau gydnabod hyn ac addasu'r cymorth a'r mynediad at wasanaethau yn unol â hynny.

Rydyn ni eisiau gweithio mewn partneriaeth ag elusennau sy'n dangos eu bod nhw'n:

- deall cyfansoddiad y cymunedau maent yn eu cefnogi ac yn gweithio gyda nhw.
- cydnabod y bobl yn y cymunedau hynny sy'n profi annhegwch.
- mynd ati'n rhagweithiol i gyrraedd ac ymgysylltu â phobl er mwyn mynd i'r afael â'r annhegwch maent yn ei brofi.
- yn gynhwysol ac yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn.

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

**ENGHRAIFFT:** Ar gyfer elusen sy'n cefnogi pawb yn y system cyfiawnder troseddol, hoffem glywed am eich agwedd at hygyrchedd o ran cyfranogi a gwneud penderfyniadau, ac efallai y byddwn yn gofyn mwy i chi am hyn yn ystod yr asesiad. Gallai hyn olygu cefnogi pobl nad ydynt wedi gallu cael mynediad at wasanaethau oherwydd gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol oherwydd eu hil, eu crefydd neu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Gallai elusen droseddu arbenigol ddarparu cefnogaeth ddiwylliannol gymwys i bobl o gymunedau lleiafrifol sydd â hanes o droseddu, tra byddant yn dal yn y carchar, neu'n gwneud gwasanaeth cymunedol. Gallai gwasanaethau hefyd dargedu cymorth i fenywod yn y carchar sy'n profi trawma o ganlyniad i gam-drin domestig ac sydd angen gwasanaethau i fenywod yn unig.

Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd ond rydym eisiau deall eich dull gweithredu a'ch ffordd o feddwl am sicrhau eich bod yn cefnogi pobl sydd wedi wynebu rhwystrau ac annhegwch.

### Cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r materion rydych chi'n gweithio i fynd i'r afael â nhw

Byddwn yn blaenoriaethu elusennau sy'n dangos eu bod yn cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn y gwaith o arwain eich sefydliad a chynllunio a darparu eich gwasanaethau. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu elusennau sy'n dangos yn gryf eu bod yn awyddus i ddatblygu eu hymarfer yn y maes hwn.

Wrth sôn am brofiad bywyd, rydyn ni'n golygu pobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y materion mae eich sefydliad yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Er enghraifft, elusen Troseddu sy'n cael ei harwain gan bobl sydd wedi cael profiad o'r system cyfiawnder troseddol

Dylai'r elusen allu disgrifio sut mae'r bobl mae'n eu cefnogi yn cael eu cynnwys yn ystyrlon mewn penderfyniadau, dylanwadu mewnol ac allanol, ymgysylltiad dinesig a/neu rolau llywodraethu. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd gwybodaeth, fforymau, neu grŵp llywio/cynghori sy'n chwarae rhan wrth gefnogi gwaith llywodraethu'r elusen.

**ENGHRAIFFT:** Mae elusen yng Nglannau Mersi wedi gwreiddio profiad bywyd drwy ei sefydliad; gyda 40% o'i staff, Ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yn meddu ar brofiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol ac wedi cael cymorth gan yr elusen o'r blaen.

Mae'r elusen yn cydnabod y gwerth y gall unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol ei gynnig i'r gwasanaethau gan roi cipolwg iddynt ar yr hyn mae angen ei newid neu sut mae pethau wedi gweithio iddynt neu heb weithio iddynt.

Mae pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn gweithredu fel Llysgenhadon ar ran yr elusen, gan fynychu digwyddiadau a chyflwyniadau i siarad am eu profiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Mae gan yr elusen fforwm lle mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn trafod ac yn codi unrhyw fater sy'n ymwneud â chefnogaeth, beth sydd ar goll, beth sydd wedi bod yn werthfawr ac unrhyw beth y mae angen ei wella. Cynhelir yr ymgynghoriadau hyn bob dau fis wyneb yn wyneb ac maent yn sail i'r gwaith o gynllunio a darparu'r holl wasanaethau.

### Dealltwriaeth o drawma a dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau

Dull yw Gofal a Oleuir gan Drawma y mae sefydliadau yn ei fabwysiadu er mwyn gwella ymwybyddiaeth o drawma a'i effaith ar ddatblygiad niwrolegol, biolegol, seicolegol a chymdeithasol unigolyn, i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cynnig cymorth effeithiol ac, yn bennaf oll, nad ydynt yn achosi trawma o'r newydd i'r rhai sy'n manteisio ar y gwasanaethau neu'n gweithio ynddynt.

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl sydd wedi cael profiad o'r System Cyfiawnder Troseddol, mae'n bwysig deall a gwerthfawrogi effaith trawma yn y gorffennol ar yr unigolyn hwnnw. Gall y trawma hwn fod wedi digwydd cyn iddynt gael dedfryd o garchar, neu faterion cysylltiedig fel eu profiad o'r system ofal, cam-drin domestig, neu effaith salwch meddwl parhaus, ochr yn ochr â'u trawma o fod yn y ddalfa.

Byddwn yn ffurfio partneriaeth ag elusennau sy'n deall effaith eang trawma, pethau sy'n ei sbarduno, a symptomau trawma yn y bobl maent yn eu cynorthwyo, a'r llwybrau posibl ar gyfer adferiad. Bydd hyn hefyd yn cynnwys effaith trawma uniongyrchol ac anuniongyrchol ar staff a gwirfoddolwyr.

Bydd y cymorth yn cynnwys meithrin cysylltiadau cadarnhaol drwy roi anghenion unigol wrth galon eich cefnogaeth, eu helpu i adeiladu rhwydweithiau cefnogi y tu allan i'ch elusen, gan ganolbwyntio ar nodi cryfderau a nodau unigol a phersonol, sy'n helpu pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu taith adferiad, gan roi dewis a rheolaeth iddynt.

### Cefnogi datblygu sefydliadol

Rydyn ni eisiau helpu elusennau i dyfu'n gryfach ac yn fwy gwydn er mwyn iddynt allu ffynnu y tu hwnt i oes ein cyllid. Byddwn yn canolbwyntio ar elusennau a all elwa fwyaf ar ein cymorth datblygu sefydliadol, ac nid dim ond y cyllid anghyfyngedig.

Gan hynny, dim ond elusennau sy'n gallu dangos eu bod yn deall eu heriau sefydliadol eu hunain ac sydd â'r diddordeb a'r parodrwydd i fuddsoddi amser ac ymdrech i fynd i'r afael â'r rhain a'u perchenogi y byddwn ni'n eu cyllido.

Bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad gan arweinwyr yr elusen a'r Ymddiriedolwyr a gallai fod yn unrhyw beth o wella trefniadau llywodraethu, cynydd amrywiaeth ar draws y sefydliad neu gyflwyno cronfa ddata. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar ein gwefan.

Mae'n bwysig i ni ein bod yn datblygu perthynas gymeradwy gyda chi a'ch elusen er mwyn i ni allu darparu'r gefnogaeth sydd fwyaf addas i'r hyn rydych chi'n gobeithio mynd i'r afael ag ef. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn siarad â chi neu'n ymweld â'ch elusen ychydig o weithiau'r flwyddyn.

### Lleoliad daearyddol

Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n cyllido elusennau bach arbenigol ledled Cymru a Lloegr. Yn ein rhaglen ar gyfer elusennau arbenigol yn 2023, fe wnaethom fuddsoddi llai o gyllid yng **Nghymru, Llundain, a rhanbarthau Gogledd-ddwyrain a De-orllewin Lloegr.** Gan hynny, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd, lle ceir ceisiadau tebyg sy'n bodloni'r rhaglen a meini prawf blaenoriaethu, byddwn yn ffafrio ceisiadau o Gymru a'r tri rhanbarth hyn.

## 7. Yr hyn nad ydym yn ei gyllido o dan y rhaglen hon

Nid ydym yn darparu cyllid ar gyfer y sefydliadau canlynol:

- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, neu unrhyw sefydliadau eraill nad ydynt yn elusennau nac yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIO) sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.
- Sefydliadau seilwaith neu ambarél.
- Sefydliadau sydd â'r prif bwrpas o roi arian i unigolion neu sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu sefydliadau sy'n defnyddio mwy na 50% o'u gwariant blynyddol fel grantiau.
- Elusennau sy'n gweithio'n bennaf y tu allan i Gymru a Lloegr.
- Sefydliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch crefyddol yn rhan o'r gwasanaethau a ddarperir, oni bai fod yr elusen wedi ei sefydlu i gefnogi pobl yn benodol o'r ffydd honno.
- Ysbytai, awdurdodau iechyd, neu hosbisau.
- Gwasanaethau achub.
- Ysgolion, colegau neu brifysgolion.